**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**8 Rhagfyr 2021**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Katrin Shaw (Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau) a Leigh McAndrew (Swyddog Ymchwilio); Swyddogion Cyngor Gwynedd - Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR SAFONAU** | 8 Rhagfyr 2021 |

**PWNC**

Eitem 3: CWYN O DORRI'R COD YMDDYGIAD A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR SAFONAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**PENDERFYNIAD**

- **Mewn perthynas â'r honiadau o dorri'r côd, mae'r pwyllgor wedi penderfynu bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Tywyn yn y modd canlynol gan iddo dorri'r darpariaethau canlynol:**

  **4(a) Rhaid i chi gyflawni'ch dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd.**

  **4(b) Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth.**

  **4(c) Rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb, gan gynnwys aelodau eraill, swyddogion y cyngor neu aelodau o'r cyhoedd.**

- **O ran Erthygl Deg y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu bod y sylwadau yn mynd y tu hwnt i sylwadau gwleidyddol fyddai'n cael eu gwarchod gan Erthygl 10.**

- **Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd bod yr ymddygiad yn ddigon difrifol i dorri Paragraff 6(1)(A) o'r cod, sef na ddylid ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar y swydd neu'r Awdurdod.**

- **Ar ôl ystyried difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw, ac ar ôl ystyried y ffactorau lliniarol a'r ffactorau gwaethygol perthnasol, penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod dderbyn cerydd, gan mai dyna'r gosb fwyaf y gall y Pwyllgor ei roi yn dilyn ei ymddiswyddiad o'r Cyngor.**

- **Serch hynny, hoffai'r Pwyllgor gofnodi y byddai, heblaw am ei ymddiswyddiad o'r Cyngor, yn debygol o fod wedi ei wahardd, a hynny am yr uchafswm posib'.**

- **Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn iddo ystyried ac adlewyrchu ar ei ymddygiad, yn**

**benodol y modd y mae'n siarad ac yn gohebu gydag eraill mewn unrhyw rôl gyhoeddus arall sydd ganddo ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ei annog i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad i aelodau.**

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.